



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4 Gorffennaf 2021

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

I'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â'r rhaglen gomedi C'Mon Midffild, efallai y byddwch yn cofio'r llinell o ddoethineb annisgwyl o ddaeth o enau Wali Tomos: "Mae bywyd fel pryd Chinese, ni cheir y chwerw heb y melys!" Ddydd Llun diwethaf, fe gefais innau gyfuniad o hyfrydwch a rhwystredigaeth a wnaeth i mi ystyried y ffordd yr ydym yn ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl. Y rhan hyfryd oedd cael ymuno mewn dathliad yn coffau canmlwyddiant geni fy nhaid. Roedd hi'n ddiwrnod braf a nifer o deulu a ffrindiau wedi cyfarfod tu allan i'r bwthyn lle ganwyd fy nhaid yn Rhoslan, ger Llanystumdwy. Cawsom gyfle i ddiolch i Dduw wrth hel atgofion, ac roedd yr achlysur cyntaf i mi weld nifer o'm teulu ers tua dwy flynedd. Ond y rhan rwystredig o'r diwrnod oedd fy mod wedi cyrraedd bron i ugain munud yn hwyr! Roeddwn wedi paratoi i gychwyn mewn da bryd, ond doeddwn i ddim wedi rhagweld y goleuadau traffig niferus â'm gorfododd i aros yn stond am funudau lawer!

Tybed sut ydych chi'n ymateb pan ydych chi'n hwyr i bethau? A sut fyddwch chi'n teimlo pan mae yna bethau'n codi sy'n drysu eich cynlluniau ac yn eich gorfodi i aros?

Er nad yw'n brofiad dymunol, mae gorfod aros yn aml yn rhan o drugaredd Duw tuag at Ei bobl. Oherwydd, wrth i ni orfod disgwyl, rydym yn dod i sylweddoli nad ydym yn gallu rheoli pob elfen o'n bywydau. Ac yn enwedig wrth i ni wynebu sefyllfaoedd anodd ac annisgwyl, mae'n gyfle i ni ymddiried yn ein Tad cariadus, pwyso ar ei addewidion a phrofi Ei bresenoldeb cariadus trwy'r Ysbryd Glân.

Neges fawr y Beibl yw y bydd cynllun daionus Duw yn cael ei gyflawni yn yr amser priodol. Yng nghanol dioddefaint ac ofnau byddwn yn aml yn amau hyn, ond mae'r Beibl yn ein hatgoffa drosodd a throsodd o ffyddlondeb Duw er bod pethau erchyll yn digwydd yn y byd, ac i'w bobl. Ac wrth gwrs, yr esiampl bennaf o hyn yw marwolaeth Mab Duw. Trwy lygaid dynol, roedd yr hyn ddigwyddodd i Iesu y methiant mwyaf mewn hanes. Ond fe wŷr y rhai sy'n credu mai hon yw'r fuddugoliaeth sy'n sylfaen i'r gobaith Cristnogol ym mhob oes.

Ac am ei fod wedi codi Iesu Grist yn ôl yn fyw dŷn ni'n edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol. ⁴ Mae gan Dduw etifeddiaeth i'w rhannu gyda'i blant – un fydd byth yn darfod, nac yn difetha nac yn diflannu. Mae'n ei chadw ar eich cyfer chi yn y nefoedd! ⁵ Bydd y Duw nerthol yn eich amddiffyn chi nes byddwch chi'n cael eich achub yn derfynol, am eich bod chi'n credu ynddo. (1 Pedr 1:3-5 beibl.net)

Cofion a Llongyfarchion

Anfonwn ein cofion at Elwyn Tudor (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd ond sy'n gobeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf, a hefyd at Alaw Gwyn Rossington (Llanfair) sydd wedi dod adref ar ôl treulio ychydig o amser yn Ysbyty Glan Clwyd y penwythnos diwethaf. Cyflwynwn y ddau, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal Duw a dymunwn wellhad buan iawn iddynt.

Llongyfarchiadau i Maelor Evans (Llanefydd) a Sue ar eu priodas. Dymunwn bob hapusrwydd a bendithion lu i chi yn eich bywyd priodasol.


Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Cofio Euros

Mae cyfrol goffa i'r Parch. Euros Wyn Jones newydd gael ei chyhoeddi gan Gyhoeddiadau'r Gair i gofio "cyfraniad sylweddol un o gymeriadau anwylaf bywyd crefyddol a diwylliannol y Gymru gyfoes". Golygydd y gyfrol werthfawr hon yw'r Parch. John Pritchard ac mae'r cyfraniadau'n cynrychioli gwahanol gyfnodau o fywyd Euros ac amrywiol feysydd ei waith.

Cofiwn amdano fel un fu'n pregethu'n gyson yn yr Ofalaeth hon, a hefyd fel un fu'n dod yn wythnosol i Lansannan i hyfforddi myfyrwyr DAWN Cymru. Roedd ganddo gylch eang o gyfeillion a chydabod o bob rhan o'r wlad ac mae nifer ohonynt wedi cyfrannu i'r gyfrol deyrnged hon.

Os hoffech gopi o'r gyfrol, mae gan Dewi Williams, Llanefydd (01745 540341) gopïau ar werth am £8 yr un, neu gallwch brynu copi gan Gyhoeddiadau'r Gair am £9.99 (yn cynnwys cludiant).



Oedfa i'r Fro

Gan fod nifer o eglwysi'r Ofalaeth bellach wedi dechrau cynnal oedfaon yn eu capeli lleol, bwriadwn ddarlledu'r Oedfa i'r Fro ar YouTube yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst yn hytrach nag yn y capel yn Llansannan. Weithiau bydd yn oedfa fyw, a thro arall yn oedfa wedi ei recordio ymlaen llaw, ond **fe fydd yr oedfa ar gael i'w gwyllo unrhyw amser o 10.30 ymlaen ar fore Sul**. Byddwn yn parhau hefyd i ddarparu copïau papur, yn ogystal â DVDs a CDs o'r oedfa i unrhyw un sy'n methu ymuno â ni ar y we. Plis cysylltwch â Mair os hoffech dderbyn copi.

Canu mewn addoliad

Mae'n debyg eich bod wedi clywed bod Llywodraeth Cymru, ers Mehefin 21, yn caniatáu i'r gynulleidfa ganu mewn addoliad, boed hynny o dan do neu yn yr awyr agored. Cyn gwneud hynny, mae'n bwysig bod pob eglwys yn diweddarau yr Asesiad Risg sydd wedi ei baratoi ganddynt, gan gymryd sylw yn arbennig o ganllawiau'r Llywodraeth mewn perthynas â lefel y canu, agosrwydd at gantorion eraill, yr angen i wisgo mwgwd ac nid feisor ayb. Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhyddid newydd hwn, ond eto'n pwysleisio ein cyfrifoldeb i wneud yr hyn a allwn i ddiogelu eraill rhag lledaeniad y feirws.

Ymhellach, gan fod y canllawiau newydd hyn i'w hymarfer yn ddelfrydol mewn ardaloedd lle mae cyfradd presenoldeb y feirws yn y gymuned yn llai na 50 mewn 100,000 o bobl, **awgryma EBC, oherwydd bod y niferoedd yn siroedd Conwy a Dinbych gryn dipyn yn uwch na'r ffigwr hwn ar hyn o bryd, y dylid osgoi canu cynulleidfaol yn ein capeli hyd nes daw lefel yr haint yn is**. (Gellir gweld cyfradd presennol y feirws ymhob sir trwy glicio ar y ddolen isod <https://public.tableau.com/app/profile/public.health.wales.health.protection/viz/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary>) a dewis 'Local Authorities Table / Time period: Rolling 7 days'.)

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul – 4^{ydd}

- **Ysgol Sul yng Nghapel Cefn Berain** am 10.30.
- **Oedfa (i aelodau Saron a Pheniel)** yng Nghapel Saron am 10.00 yng nghwmni y Parch. John Robinson. Gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, bydd angen cofrestru ymlaen llaw trwy roi eich enw i Helen neu Trefor erbyn nos lau, Gorffennaf 1^{af}, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa i'r Fro ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri – gweler yr adran Oedfa i'r Fro uchod. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Llun – 5^{ed}

- **Merched Gyfarfu â Iesu â'u neges i ni heddiw** (ar ZOOM) am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu dealwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071)

Mercher – 7^{fed}

- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Sul – 11^{eg}

- **Oedfa (i aelodau Groes a Henllan)** yng Nghapel Henllan am 9.30 o dan arweiniad Rhodri. Gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, bydd angen cofrestru ymlaen llaw trwy roi eich enw i Rhian (rhianfachgau@yahoo.com neu Alys (alysowen11@hotmail.co.uk), os gwelwch yn dda.
- **Cyfarfod Gweddi (i aelodau Cefn Meiriadog)** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30. Gan mai nifer cyfyngedig all fod yn bresennol, bydd angen cofrestru ymlaen llaw trwy roi eich enw i Haf erbyn nos Wener, Gorffennaf 9^{fed}, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa deuluol (Llanefydd a Chefn Berain)** o dan ofal Rhodri ar y Cae Chwarae am 11.00 (os bydd y tywydd yn caniatáu) a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cofiwch roi eich enw i Mair erbyn hanner dydd ar y dydd Sadwrn, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa i'r Fro ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri – gweler yr adran Oedfa i'r Fro uchod. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Mercher – 14^{eg}

- **Gair a Gweddi** ar Zoom am 7.30. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Gair a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Sul – 18^{fed}

- **Oedfa i'r Fro ar YouTube** o dan arweiniad Rhodri – gweler yr adran Oedfa i'r Fro uchod. (Ewch i wefan Eglwysi Bro Aled [eglwysibroaled.com] a chlicio ar y llun 'Oedfa i'r Fro' ar y dudalen flaen i ymuno.)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (14^{eg}), os gwelwch yn dda.